

Eitem: 7

Teitl: Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Yn ystod y chwarter diwethaf, rydw i wedi parhau i weithio gyda llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, datblygu ein cynlluniau a'n ffyrdd o weithio, cyflawni ein hymrwymiaadau, mynd i'r afael â materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae manylion yr holl weithgareddau hyn ar gael ar gais.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ychydig o'r datblygiadau a'r gweithgareddau rydw i wedi bod yn rhan ohonyn nhw ers i mi adrodd diwethaf i gyfarfod cyhoeddus llawn o'r Bwrdd ar 22 Ionawr 2025. Nid yw'r gweithgareddau a'r datblygiadau allweddol hyn wedi'u cynnwys yn fanylach mewn papurau eraill y Bwrdd.

Gweithio gyda'n partneriaid

Cryfhau cefnogaeth drwy bartneriaeth strategol gyda Gofal Cancer Tenovus

Yn 2025, ffurfiodd Llais bartneriaeth werthfawr gyda Tenovus Cancer Care i wella cefnogaeth i unigolion yr effeithir arnynt gan ganser. Gan gydnabod yr angen cynyddol am eiriolaeth arbenigol ar gyfer cwynion sy'n gysylltiedig â chanser, aeth Tenovus at Llais i helpu i fynd i'r afael â'r angen hwn.

Er bod gan Tenovus brofiad helaeth o ddarparu cefnogaeth gyfannol i'r rhai yr effeithir arnynt gan ganser, nid oedd ganddynt yr arbenigedd i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth a chymorth i gwynion.

Roedd Llais, gyda'i wasanaeth eiriolaeth cwynion sefydledig ledled Cymru, mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r rôl hon. Drwy alluoedd codi arian cryf Tenovus, llwyddon nhw i ariannu eiriolwr cwynion cancer pwrpasol.

Fe wnaethon ni gydweithio â Tenovus i gytuno ar y gofynion ar gyfer y rôl, y broses recriwtio, a dewis yr ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd ar 2 Mehefin 2025.

Gwerthoedd a rennir, effaith a rennir

Mae'r bartneriaeth hon wedi'i hadeiladu ar werthoedd a rennir ac ymrwymiad cydfuddiannol i wella canlyniadau i bobl yr effeithir arnynt gan ganser. Drwy gyfuno gwasanaethau cymorth eang Tenovus ag arbenigedd eiriolaeth arbenigol Llais, rydym yn creu dull mwy cydgysylltiedig o ofal a chymorth. Mae'r cydweithrediad hefyd yn cynnwys casglu a dadansoddi data ar y cyd, megis olrhain nifer a natur cwynion a'u dosbarthiad daearyddol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i

lywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol a sicrhau bod y ddau sefydliad yn parhau i ddiwallu anghenion esblygol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r bartneriaeth rhwng Llais a Tenovus yn dangos y manteision strategol o gydweithio i annog dysgu a gyrru darpariaeth gwasanaethau mwy ymatebol sy'n canolbwyntio ar y person.

Ehangu ein dylanwad yn y sector gofal cymdeithasol – dod yn bartner sefydlu'r Rhwydwaith Cynhadledd Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol newydd

Mae'r rhwydwaith newydd hwn wedi'i greu yng Nghymru i ddarparu lle parhaus i arweinwyr meddwl a phobl ddylanwadol allweddol ym maes gofal cymdeithasol gydweithio i 'lunio mentrau'r dyfodol yn weithredol sy'n sbarduno datblygiad mewn gofal cymdeithasol' - gyda'r nod o wneud effaith barhaol ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

Mae'n rhoi cyfle parhaus i sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector gofal cymdeithasol rannu eu prosiectau a'u harloesiadau eu hunain gydag aelodau'r rhwydwaith. Fel partner sefydlu, mae Llais wedi sicrhau'r cyfle i:

- Lunio datblygiad a chyfeiriad y rhwydwaith
- Cael mynediad at ystod eang o gyfleoedd rhwydweithio strategol
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl ac ymrwymiad Llais i lunio gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy gydweithio
- Mynediad at fewnwelediadau allweddol i heriau a thueddiadau'r sector gofal cymdeithasol
- Meithrin a datblygu perthnasoedd dibynadwy gyda phartneriaid a dylanwadwyr gofal cymdeithasol allweddol
- Cadarnhau ein hymrwymiad i nodau cyfrifoldeb cymdeithasol allweddol Cymru a'n cyd-fynd â nhw.

Cymerodd Llais ran yn y digwyddiad lansio byw ar gyfer y rhwydwaith ym mis Mai 2025. Rydym wrthi'n cynllunio ein cyfranogiad yn yr ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y flwyddyn nesaf, a byddwn yn rhannu'r rhain gydag aelodau'r Bwrdd cyn gynted â phosibl.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y ddolen ganlynol [The-NSCC-Network-Founding-Partner-handbook-Final-compressed.pdf](#)

Dathlu rhagoriaeth a rhannu arfer da mewn darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mae Gwobrau Gofal Cymdeithasol Blynyddol yn wobrau sy'n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu arfer da mewn gofal cymdeithasol, gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Mae'r gwobrau'n anrhydeddu cyfraniadau unigolion, timau a sefydliadau ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Cynhaliwyd seremoni 2025 ar 1 Mai 2025. Fe wnaeth gydnabod 11 prosiect a 7 unigolyn ar draws 6 chategori:

- Adeiladu dyfodol disglair i blant a theuluoedd

- Datblygu ac ysbrydoli'r gweithlu
- Arweinyddiaeth ysbrydoledig
- Gofalwn Cymru
- Gweithio mewn partneriaeth
- Gweithio yn ôl egwyddorion ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau.

Llais oedd prif noddwr y Gwobrau 2025. Rhoddodd hyn gyfle pwysig inni godi ymwybyddiaeth o'n rôl a'n gweithgareddau ar draws y sector gofal cymdeithasol, ac yn enwedig gyda staff rheng flaen. Bydd ein staff yn defnyddio'r arfer da a amlygwyd drwy'r gwobrau i annog gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill i ddysgu o'r dulliau a'r arferion sy'n gweithio mor dda i gymunedau lleol a'u lledaenu.

Gallwch ddysgu mwy am y digwyddiad a'r enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn y ddolen ganlynol [seremoni wobrwyo Gwobrau 2025, enillwyr a... | Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Sicrhau, gwella, dylanwadu – lansio cynllun strategol Arolygiaeth Gofal Cymru 2025-2030

Fel aelod o Fwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru, mynychais lansiad cynllun strategol yr arolygiaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddull sy'n cael ei arwain gan werthoedd, gan amlinellu 5 amcan craidd, a ddisgrifir gan Arolygiaeth Gofal Cymru fel:

- canolbwyntio ein gwaith ar ansawdd bywyd pobl a'u profiad o ofal
- darparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel am ein canfyddiadau
- datblygu gweithlu amrywiol, grymus a gwydn
- cynyddu ein gwelededd i sicrhau bod pobl yn gwybod beth rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu
- gweithio ar y cyd â phartneriaid i rannu gwybodaeth a gwella canlyniadau.

Ar ôl llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth yn ddiweddar rhwng Llais ac Arolygiaeth Gofal Cymru, rydym yn defnyddio'r fframwaith hwn i ddatblygu a chytuno ar raglen weithgarwch ar y cyd a gynlluniwyd i gryfhau effaith gyfunol ein rolau unigol i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Gallwch ddysgu mwy am gynllun yr Arolygiaeth yn y ddolen ganlynol

[Cynllun Strategol 2025-2030: "Sicrhau, Gwella, Dylanwadu" - Ein map ffordd ar gyfer y dyfodol | Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

Gyrru gwelliant drwy rannu'r hyn a wyddom am ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan GIG Cymru

Yn ddiweddar, mae Llais wedi cymryd rhan yn yr uwchgynhadledd gofal iechyd dwyflynyddol yng Nghymru. Cynhelir cyfarfodydd uwchgynhadledd gofal iechyd i alluogi trafodaeth rhwng cyrff archwilio, arolygu, rheoleiddio a gwella sy'n gweithio yng Nghymru. Mae pob sefydliad a oedd yn rhan o'r uwchgynadledau wedi nodi'r canlyniadau disgwylidig fel a ganlyn:

- Perthnasoedd gwaith agosach a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau sy'n cymryd rhan
- Mae rhaglenni gwaith y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cael eu llywio gan y wybodaeth a rennir ac yn adlewyrchu dull cyfunol a chydweithredol o fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder a/neu sydd angen eu datblygu.
- Bydd pryderon risg uchel, ar y cyd, yn cael eu cytuno a'u rhannu ym mhob cyfarfod Uwchgynhadledd. Gellir defnyddio canlyniad hyn i lunio adborth i Gyfarwyddwr Cyffredinol – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru a'r Prif Weithredwr priodol gan fynychwr yr uwchgynhadledd yn ôl yr angen.
- Cychwyn rhagweithiol sicrwydd neu gamau gweithredu pellach yn erbyn pryderon neu faterion gan ddefnyddio pwerau gorfodi arbennig Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru neu'r broses Uwchgyfeirio ac Ymyrryd lle bo'n briodol
- Mae sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cydweithredu ac yn cydweithio â chyfoedion a rhanddeiliaid wrth i ni chwarae ein rolau priodol wrth yrru gwelliant mewn gofal iechyd yng Nghymru.

Mae trafodaethau'r uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar bob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG unigol yng Nghymru yn ogystal â rhoi cyfle i fyfyrion ar y trafodaethau hyn er mwyn nodi themâu Cymru gyfan sydd angen gweithredu arnynt yn genedlaethol.

Gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Llais wedi parhau i ddatblygu ein perthynas a'n partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Rydym wedi parhau i gynnal cyfarfodydd a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â'n dulliau i hyrwyddo ein dealltwriaeth a'n cefnogaeth gydfuddiannol ymhellach. Dyma rai elfennau allweddol o'n gwaith a'n cynlluniau diweddar:

- Rydym wedi trafod gyda nhw ein dulliau yn Llais o ran ein gweithgareddau a'n technegau ymgysylltu. Roedd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn ddiddordeb mawr yn ein dull Llais Local, ac mae hyn wedi dylanwadu ar Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn i ddilyn dull tebyg fel rhan o'u gweithgareddau ymgysylltu.
- Rydym hefyd wedi gallu rhannu manylion ein Prosiect Hawliau, Disgwyliadau a Chyfrifoldebau. Mae gan Gomisiynydd Pobl Hŷn ffocws cryf ar fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau ac mae'n awyddus i weithio gyda ni ar ein prosiect, gan enwebu staff allweddol i gymryd rhan yn y camau cynllunio cynnar.
- Yn olaf, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i bartneriaeth, bydd Timau Gweithredol Llais a Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn yn cyfarfod ym mis Medi ar gyfer sesiwn weithredol ar y cyd i archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio.

Cryfhau lleisiau pobl

Gwranddo ar rieni: ein hadroddiad ar gael babi ym Mae Abertawe

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llais adroddiad yn rhannu profiadau mwy na 500 o bobl a ddefnyddiodd wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Yn seiliedig ar arolygon, cyfweiliadau a grwpiau ffocws, tynnodd yr adroddiad sylw at ystod eang o brofiadau, ac roedd rhai ohonynt yn peri pryder mawr. Er bod rhai teuluoedd wedi disgrifio gofal tosturiol a phroffesiynol, dywedodd nifer o rai eraill wrthym eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu clywed, heb gefnogaeth neu'n anniogel ar wahanol gamau o'u taith: yn enwedig yn ystod esgor, ar ôl genedigaeth, neu wrth geisio codi pryderon.

Tynnodd yr adroddiad sylw at yr angen am welliannau parhaus yn y gofal mamolaeth a ddarperir gan y bwrdd iechyd.

Mewn ymateb, gwnaeth Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ddatganiad gyda rhai ymrwymadau pwysig:

- bydd asesiad o bob gwasanaeth mamolaeth yng Nghymru, gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2025, gan edrych ar sut mae gwasanaethau'n perfformio yn erbyn canllawiau cenedlaethol
- Yn y dyfodol, bydd Perfformiad a Gwella'r GIG yn cyhoeddi diweddariadau cynnydd rheolaidd ar weithredu'r Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol, gyda'r diweddariad cyntaf i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf ac yna ddwywaith y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a thîm Adolygu Mamolaeth a Newyddenedigol Annibynnol Bae Abertawe i sbarduno gwelliant.

Gallwch ddysgu mwy am ein hadroddiad yn y ddolen ganlynol [Gwranddo ar rieni: Llais yn cyhoeddi adroddiad ar brofiadau mamolaeth ym Mae Abertawe | Llais](#)